# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016**

**2016/15. Presennol:** Cynghorwyr Toland (yn y gadair), Goodman, Griffiths, Hustings, Jenkins a Swanson.. Bu'r clerc yn gweinyddu.

16. **Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Thomas; Cynghorydd Sir ap Gwynn.
17. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016 ac 29 Mehefin 2016.
18. **Datganiadau o ddiddordeb:**
    Dim
19. **Materion yn codi:**
    i. Nid oedd ymateb gan y Gweinidog. Nodwyd bod sefyllfa debyg yn Nole parthed palmant. Trafodwyd y ffordd ymlaen. Penderfynwyd cysylltu â'r Gweinidog i gerdded ar hyd y ffordd gyda Mark Williams AS ac Elin Jones AC.
    **Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu at y Gweinidog.
    ii. Nodwyd bod gwaith ar y lle chwarae yn mynd rhagddi.
    iii. Nodwyd bod y clerc wedi ysgrifennu at Mark Williams AS. Penderfynwyd ysgrifennu at Network Rail am y person sydd wedi cael iawndal am gwympo ar y llwybr i'r orsaf.
    **Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu i Network Rail.
    iv. Penderfynwyd y byddai Cyngor Swanson yn siarad â Chalonnau Cymru ynglŷn â chael batri newydd ar gyfer y diffibriliwr. Bydd y Clerc yn ysgrifennu erthygl i *Clerks and Councils Direct* am y diffibriliwr.
    v. Nodwyd ymateb CADW. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu i CADW ynglŷn â bin addas, sef un a fydd yn cymryd bag du, a hefyd i ddweud bod y Cyngor am gael arwyddion ond i gael dewis lle i'w rhoi. Penderfynwyd y byddai Cynghorydd Hustings i siarad â pherchennog y cerbydau sy'n cael eu parcio ar y lôn i'r maes parcio.
    **Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu i CADW.
    vi. Nid oedd cynnydd parthed cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned.
    vii. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu eto i'r Cyngor Sir am fanc ailgylchu arall.
20. **Cyllid:**
    i. Penderfynwyd peidio ag ystyried cais am gymorth ariannol gan Shelter Cymru yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2017.
    ii. Penderfynwyd gwneud y taliad canlynol: £8 (SARPA)
    iii. Nodwyd bod y taliadau canlynol wedi'u gwneud: £20.00 (ffi bancio), £115.18 (costau'r clerc), £378.56 (Zurich).
    iv. Nodwyd bod y taliadau canlynol wedi'u derbyn: £150 (CADW)
    v. Nodwyd y raddfa tâl i glercod 2016-17.
    vi. Nodwyd bod y ffurflen flynyddol wedi mynd i'r archwilydd.
21. **Gohebiaeth a Chyfathrebu:**
    i. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Un Llais Cymru:
        a. Pwyllgor Ardal Ceredigion
        b. Codwch Faner dros y Gymanwlad.
    ii. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

a) Protocol Ymgysylltu â’r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion: penderfynwyd rhoi’r ddolen ar wefan y Cyngor
b) Nodwyd penderfyniad y Cabinet ar Adolygiad o’r Ddarpariaeth Ôl-16 a Seddi Gwag, Cludiant o’r Cartref i’r Ysgol/Coleg

iii. Bydd Cynghorydd Goodman yn darllen cylchlythyr SARPA.
iv. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Gorffennaf 2016).
v. Nodwyd *The Clerk* (Gorffennaf 2016)

**22. Unrhyw Fater Arall**:

i) Adroddwyd bod problemau ar dudalen Facebook a weinyddir gan y Cyngor, sef bod aelod wedi ysgrifennu sylwadau sarhaus arni. Gofynnwyd i’r Clerc ddileu’r sylwadau, anfon neges ar yr awdur gan ofyn iddi beidio â gwneud sylwadau tebyg yn y dyfodol, ac i gynnwys rheolau ar gyfer defnyddio’r dudalen arni.

**23. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 14 Medi 2016